

Gweithio Gartref - Rhyddhad Treth

Ystyr Gweithio Gartref yw pan fo aelod o staff y Brifysgol yn gweithio o'i gartref ei hun am gyfnod y cytunir arno.

Er y disgwyl i staff weithio fel rheol ar safle'r Brifysgol, derbynnir y bydd amgylchiadau'n codi ar brydiau pan fydd aelod o'r staff yn gofyn am gael gweithio gartref am resymau amrywiol, boed hynny'n aml neu'n anaml, e.e. er mwyn rhoi hyblygrwydd i'r rhai sydd â chyfrifoldebau gofal rhesymol neu ddibynyddion.

Rhaid cymeradwyo pob cais i weithio o gartref ac nid yw'n hawl contractiol. Mae'r Brifysgol yn rhoi'r hawl hon i'w gweithwyr fel y gwêl yn dda, ac ni ddylai effeithio ar effeithlonrwydd nac effeithiolrwydd gweithredol y Sefydliad. Mae'r Brifysgol yn disgwyl i'r rhai sy'n gweithio gartref fod yn gweithio gydol eu hamser gartref, fel petaent yn gweithio yn y Brifysgol.

Cewch ragor o wybodaeth am Bolisi Gweithio Hyblyg y Brifysgol, gan gynnwys y Canllawiau ar Weithio Gartref, yng nghanllawiau A i Y yr Adran Adnoddau Dynol. <https://www.aber.ac.uk/cy/hr/all/>

Mathau o Weithio Gartref

Mae gweithio gartref achlysurol yn opsiwn i'r staff hynny sy'n dymuno cwblhau darn penodol o waith heb i neb darfu arnynt, neu sydd â chyfrifoldebau ad-hoc dros ddibynyddion. Mae hefyd yn opsiwn i staff y mae'n rhaid iddynt aros gartref oherwydd tywydd drwg.

Mae gweithio gartref rheolaidd yn digwydd pan fo aelod o'r staff yn gofyn am gael gweithio gartref yn rheolaidd am ganran o'r wythnos waith arferol. Bydd ef/hi wedi cael cymeradwyaeth i wneud hynny am resymau cydbwysedd bywyd a gwaith. Gallai'r trefniant hwn gael ei adolygu os bydd yr amgylchiadau'n newid.

Mae gweithio gartref parhaol yn golygu bod y Brifysgol wedi cytuno y caiff yr aelod staff weithio'r oriau a contractiwyd o gartref yn y tymor hir. Drwy hyn, daw ei gartref yn fan gwaith. Dim ond ar gyfer rhai swyddi y bydd hyn yn briodol.

Mae gweithio gartref gorfodol yn digwydd pan fo gofyn i'r staff weithio o gartref am fod campysau'r Brifysgol ynghau.

Trethi Cyflogaeth

Gallai newidiadau mewn arferion gwaith fod â goblygiadau annisgwyl o ran treth gyflogaeth (P11d). Gall hyn arwain at gostau i'r Brifysgol ac i'r aelod staff, lle bo'r aelod staff yn derbyn budd-daliadau neu ad-daliadau ar dreuliau o ganlyniad i'w drefniadau gweithio gartref newydd. Mewn sefyllfaoedd fel hyn, mae'n bosib y bydd angen talu trethi cyflogaeth ychwanegol.

Cewch ragor o wybodaeth drwy fynd i <https://www.gov.uk/expenses-and-benefits-homeworking/what-to-report-and-pay>

Treuliau Uniongyrchol i'r Staff - Gweithio Gartref

Ni fydd y Brifysgol yn cyfrannu dim tuag at dreuliau cartref arferol sy'n gysylltiedig â gweithio gartref, e.e. costau'r rhyngwyd, gwresogi, goleuadau neu gostau'r dreth gyngor.

Ni ddylai aelodau staff sy'n gweithio gartref yn achlysurol ac yn rheolaidd hawlio treuliau teithio rhwng eu cartref a Champws y Brifysgol, gan mai eu 'man gwaith arferol' yw'r Brifysgol o hyd. I'r rhai sy'n gweithio gartref yn barhaol, eu 'man gwaith arferol' yw eu cartref. Golyga hyn eu bod yn gymwys i wneud cais am dreuliau teithio os oes rhaid iddynt deithio i'r Brifysgol.

Mae gan weithwyr hawl i gael ffôn meddal. Ar ôl gosod y ffôn hwn, mae modd derbyn a gwneud galwadau ffôn drwy'r cyfrifiadur. Ni fydd y Brifysgol yn cyfrannu dim tuag at y galwadau a wneir o ffôn cartref neu o ffonau symudol y gweithiwr.

Hawlio Didyniad Treth ar gyfer Costau Gweithio Gartref Ychwanegol - Gweithwyr Gartref Parhaol a Gorfodol

Mae cychwyn ar drefniant gweithio gartref parhaol neu orfodol yn arwain at gostau cartref ychwanegol. Os oes gofyn ichi weithio o gartref, gallwch hawlio rhyddhad treth. Gallwch wneud hyn drwy eich ffurflen dreth hunanasesu yr ydych yn ei chyflwyno i Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi erbyn yr 31ain o Ionawr bob blwyddyn. Os nad oes rhaid ichi gyflwyno ffurflen dreth hunanasesu i Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi bob blwyddyn, gallwch lenwi ffurflen P87.

Hawlio rhyddhad Treth Incwm ar gyfer eich Treuliau Cyflogaeth (ffurflen P87)

Mae Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi wedi gosod terfynau sy'n 'rhydd o Dreth Incwm / Cyfraniadau Yswiriant Gwladol' ar gyfer y taliadau hyn. Eu bwriad yw talu neu ad-dalu treuliau cartref ychwanegol rhesymol a ddaw i ran staff sy'n gweithio gartref. Bydd hyn fel rheol yn cynnwys y costau gwresogi a goleuadau ychwanegol, ynghyd â'r dŵr ychwanegol y byddwch yn ei ddefnyddio. Bydd hefyd yn cynnwys cynnydd yng nghostau defnyddio'r rhyngwrwyd, yswiriant adeiladau a chynnwys neu alwadau ffôn busnes.

Bwriad y rhyddhad treth yw rhoi cyfrif am gostau cartref ychwanegol rhesymol a ddaw i'ch rhan wrth ichi weithio o gartref. Rhaid i'r gweithiwr gyflwyno'r cais. Ni all y Brifysgol gyflwyno'r cais hwn ar ran y gweithiwr.

I wneud cais, bydd angen y pethau canlynol arnoch chi:

- Enw'r Cyflogwr: Prifysgol Aberystwyth University
- Cyfeirnod Cynllun Talu Wrth Ennill y Cyflogwr: 615 / U1245
- Rhif Gweithiwr: dylech gyfeirio at eich slip cyflog, neu cysylltwch â'r Adran Adnoddau Dynol
- Teitl eich Swydd: dylech gyfeirio at eich slip cyflog, neu cysylltwch â'r Adran Adnoddau Dynol

Yr enw ar yr adran berthnasol ar wefan Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi yw 'Using your home as an office'.

Os byddwch yn hawlio drwy lenwi ffurflen P87, argymhellir eich bod yn cyflwyno un cais pan fyddwch yn gwybod am ba hyd yr ydych wedi bod yn gweithio o gartref. Os bydd Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn cytuno i hyn, mae'n debygol y bydd eich cod treth yn cael ei newid erbyn y flwyddyn dreth nesaf; mae'n annhebygol y bydd Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn ad-dalu'r dreth i chi'n uniongyrchol.

<https://www.gov.uk/tax-relief-for-employees/working-at-home>

<https://www.gov.uk/guidance/claim-income-tax-relief-for-your-employment-expenses-p87.cy>

Dalier Sylw: **Dim ond os bydd eich cyflogwr wedi gofyn ichi weithio o gartref** y bydd modd ichi hawlio rhyddhad treth, er enghraifft, yn y sefyllfa bresennol hon â'r Brifysgol ynghau oherwydd y pandemig COVID-19. Nid oes modd ichi hawlio rhyddhad treth os ydych yn gweithio o gartref yn wirfoddol neu o ddewis, er enghraifft os cytunwyd eich bod yn gweithio gartref yn achlysurol neu'n rheolaidd.

Ymholiadau

E-bostiwch y Tîm Treth a Chydymffurfio yn yr Adran Gyllid: taxstaff@aber.ac.uk